Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Uned Llwyneryr

## Dyddiad y gweithgarwch: 19 Mai 2021

Dyddiad cyhoeddi: 25 Mehefin 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-80195-553-9



© Hawlfraint y Goron 2021

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Uned Llwyneryr fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r uned yn darparu gofal ar gyfer hyd at saith claf ag anableddau dysgu. Mae'r uned yn rhan o'r gwasanaethau anableddau dysgu a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn lleoliadau gofal iechyd.  Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â Rheolwr yr Uned a'r Brif Nyrs ar gyfer Gwasanaethau Anableddau Dysgu ar 19 Mai 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed o ganlyniad i COVID-19 i'r canlynol:
    - Yr amgylchedd ffisegol
    - Arferion, trefniadau ar gyfer ymweliadau a chadw mewn cysylltiad ag anwyliaid
    - Rheoli ymddygiad
    - Mynediad y cleifion i absenoldeb yn y gymuned, gweithgareddau a rhwydweithiau cymdeithasol (gan gynnwys absenoldeb ffurfiol lle mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn gymwys)?

- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel?

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol ehangach pan fydd angen?

- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a deddfwriaeth DoLS, a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i gael y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cadarnhaodd y staff fod nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd mewn ymateb i'r pandemig. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol, asesiadau a mewnbwn therapiwtig ar ffurf rithwir lle bynnag y bo modd er mwyn lleihau nifer yr ymwelwyr â'r uned. Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol nodi bod nifer o asesiadau arbenigol wyneb yn wyneb wedi ailddechrau. Dywedodd y staff wrthym fod hyn wedi bod o fudd i'r staff a'r cleifion.

Gwelsom fod ymweliadau â'r uned wedi'u cyfyngu er mwyn atal COVID-19 rhag cael ei drosglwyddo. Cawsom wybod bod hyn wedi'i gwneud hi'n anodd i rai o'r cleifion gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd fel arfer yn ystod y cyfnod hwn. Roedd defnyddio dulliau ymweld rhithwir wedi helpu rhai o'r cleifion i gadw mewn cysylltiad, ond dywedodd y staff wrthym fod rhai o'r cleifion wedi'i chael hi'n anodd gwneud hyn. Gallai'r staff ddisgrifio'r ffyrdd dyfeisgar roeddent yn gweithio gyda pherthnasau er mwyn helpu'r cleifion i gadw mewn cysylltiad ystyrlon â'u ffrindiau a'u teuluoedd.

Dywedodd y staff wrthym fod cyfyngiadau ynghylch absenoldebau a lleihad yn nifer y teithiau i'r gymuned wedi peri anawsterau i'r holl gleifion o ganlyniad i'r newidiadau i'w harferion. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y staff wedi parhau i wneud eu gweithgareddau arferol cymaint â phosibl. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio cerbyd a gwneud ymarfer corff yn yr awyr agored. Cawsom wybod hefyd fod y staff wedi gweithio'n galed i ymgysylltu â'r cleifion yn yr uned ac y cafwyd rhoddion hael gan y gymuned er mwyn helpu i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau.

Gwelsom fod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol wedi parhau drwy gydol y pandemig ar

ffurf rithwir. Roedd yn gadarnhaol nodi bod perthnasau'n cael eu cynnwys yn y cyfarfodydd hyn. Nododd y staff y byddai cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal yn amlach os oedd angen, sy'n helpu i ddangos bod anghenion gofal a thriniaeth y cleifion yn cael eu hadolygu'n amserol.

Gwnaethom gadarnhau bod y cleifion yn cael archwiliad iechyd corfforol pan gânt eu derbyn i'r uned a bod pob claf wedi cael yr archwiliad hwn, neu ar fin ei gael. Mae hyn yn sicrhau bod anghenion iechyd a llesiant cyffredinol y cleifion yn cael eu diwallu.

Gwelsom fod asesiad iechyd a diogelwch ac asesiad risg gwrthglymu wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar. Dywedodd rheolwr yr uned wrthym fod gwaith adnewyddu er mwyn ymdrin â phwyntiau clymu yn mynd rhagddo yn yr uned ac y byddai unrhyw gleifion sy'n wynebu risg yn cael asesiad risg unigol ac y byddai'r staff yn cadw llygad barcud arnynt.

Mae'r uned yn asesu ac yn trin oedolion a dderbynnir ag anghenion acíwt ac, fel y cyfryw, gall y cleifion ymddwyn mewn ffyrdd heriol ar adegau. Dywedodd y staff wrthym fod model i gefnogi ymddygiad cadarnhaol yn cael ei ddilyn a gwnaethant gadarnhau bod y dulliau a ddefnyddir i reoli'r ymddygiadau hyn yn rhan o gynllun gofal unigol neu gynllun cefnogi ymddygiad cadarnhaol pob claf. Cawsom wybod bod perthnasau ac eiriolwyr yn rhan o'r trafodaethau hyn.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn rhoi pwyslais ar ddefnyddio'r arferion lleiaf cyfyngol. Gwnaethom edrych ar ddeg o'r crynodebau misol diweddaraf o ddigwyddiadau a gwelsom fod ymyriadau'n cael eu defnyddio cyn lleied â phosibl. Esboniodd y staff fod dulliau eraill o lonyddu ar lafar yn cael eu defnyddio er mwyn ceisio osgoi gorfod defnyddio ymyriadau.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisïau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom fwrw golwg ar systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedodd rheolwr yr uned wrthym fod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys rhannu gwybodaeth drwy e-bost a thrwy ddogfennau wedi'u hargraffu. Roedd rheolwr yr uned yn cydnabod bod angen darparu sesiwn loywi i'r aelodau hynny o'r staff a oedd wedi bod i ffwrdd o'r gwaith, er enghraifft pan oeddent yn hunanynysu.

Dywedodd y staff wrthym fod rhai o'r cleifion wedi cael trafferth ymdopi â rhai o'r gofynion, megis cadw pellter cymdeithasol a'r defnydd o gyfarpar diogelu personol. Fodd bynnag, cadarnhaodd y staff eu bod wedi llwyddo i oresgyn yr heriau hyn drwy wneud pethau fel symud byrddau a chadeiriau ac atgoffa'r cleifion i eistedd ar soffa yr un. Cawsom wybod bod y staff yn cael trafodaethau unigol â'r cleifion ac yn rhoi deunyddiau hawdd eu deall iddynt am COVID-19.

Gwelsom fod arolwg atal a rheoli heintiau wedi cael ei gwblhau ddwywaith yr wythnos gan reolwr yr uned mewn ymateb i COVID-19. Mae hyn yn helpu'r bwrdd iechyd i nodi unrhyw feysydd y gall fod angen eu gwella. Dywedodd rheolwr yr uned wrthym y cydweithiwyd yn agos â'r nyrs atal a rheoli heintiau ac y cafwyd sawl ymweliad â'r uned er mwyn sicrhau ei bod yn cyrraedd y safonau atal a rheoli heintiau.

Roedd y staff yn canmol y ffordd roedd y staff glanhau wedi cadw'r amgylchedd yn lân drwy gydol y pandemig. Dywedodd y staff wrthym fod y staff nos yn ymgymryd â thasgau glanhau ychwanegol ac y cânt eu cwblhau'n rheolaidd yn ystod y dydd hefyd.

Gwnaethom gadarnhau bod hyfforddiant ar sut i wisgo a diosg cyfarpar diogelu personol yn gywir wedi cael ei ddarparu a bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau cyrsiau ymwybyddiaeth o COVID-19 ar-lein. Roedd yn gadarnhaol nodi bod yr uned wedi trefnu hyfforddiant ychwanegol a oedd yn benodol i'r staff anableddau dysgu mewn ymateb i'r pandemig. Roedd yr hyfforddiant hwn yn cynnwys meysydd megis technegau golchi dwylo a defnyddio ocsigen.

Pwysleisiodd y staff eu bod yn cymryd gofal wrth ymdrin ag unrhyw gleifion a oedd yn dangos symptomau COVID-19 posibl a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn profi'r cleifion hyn os

oedd pryder. Roedd yn gadarnhaol nodi na chafwyd unrhyw frigiadau o achosion o COVID-19 yn yr uned adeg cynnal y gwiriad ansawdd.

Gwnaethom gadarnhau bod y staff yn cael profion COVID-19 rheolaidd a bod pob aelod o'r staff wedi eu brechu.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella**

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff ar gael sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, a'u bod yn gallu cysylltu â gweithwyr anableddau dysgu proffesiynol eraill pan fydd angen. Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd rheolwr yr uned yn canmol y ffordd roedd y tîm cyfan wedi gweithio i gefnogi'r cleifion drwy gydol y pandemig.

Gwelsom fod lefelau staffio y cytunwyd arnynt ar waith yn y gwasanaeth a bod y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai angen uwchgyfeirio unrhyw bryderon am staffio. Nodwyd bod lefelau salwch y staff a nifer y swyddi gwag yn isel yn yr uned.

Cawsom gopi o'r ystadegau hyfforddiant gorfodol a gwelsom fod y lefel o gydymffurfiaeth yn dda ar y cyfan. Dywedodd rheolwr yr uned wrthym fod y dirprwy reolwr wedi hyrwyddo pwysigrwydd hyfforddiant a chefnogi'r staff i gwblhau hyfforddiant drwy gydol y pandemig.

Gwnaethom gadarnhau bod un claf a oedd yn destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)[1] wedi cael asesiad amserol a bod hwn yn gyfredol. Gwnaethom gadarnhau hefyd fod gwrandawiadau tribiwnlys wedi'u trefnu ar gyfer y cleifion a gedwir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, a bod gwasanaethau eirioli priodol ar gael i'r cleifion hyn. Mae hyn yn helpu i sicrhau

[1] Mae'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Nod y trefniadau diogelu yw sicrhau y gofelir am bobl mewn cartrefi gofal ac ysbytai mewn ffordd nad yw'n cyfyngu'n amhriodol ar eu rhyddid

bod hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu, a bod gofal a thriniaeth yn cael eu rhoi er budd pennaf yr unigolyn hwnnw.

Gwelsom fod yr uned wedi gwneud dau atgyfeiriad diogelu diweddar. Nodwyd bod prosesau diogelu priodol wedi cael eu dilyn, a oedd yn cynnwys tystiolaeth o gysylltu â thîm diogelu'r bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol. Drwy graffu ymhellach ar y digwyddiadau hyn, gwelsom fod gwersi priodol wedi cael eu dysgu a bod cynlluniau gweithredu wedi cael eu creu.

**Nodwyd y maes canlynol i'w wella:**

Nod uned asesu a thrin yw darparu triniaeth yn y byrdymor i gleifion sydd ag anabledd dysgu. Rhoddodd y staff ddiweddariad inni ar y cleifion a fyddai'n cael eu rhyddhau'n fuan, ond a oedd yn aros am lety a fydd yn diwallu eu hanghenion orau. Fodd bynnag, gwelsom fod un claf wedi cael ei dderbyn ym mis Rhagfyr 2019. Esboniodd y staff fod y trefniadau i ryddhau'r claf hwn wedi cael eu gohirio oherwydd ei anghenion cymhleth a'r angen i ddod o hyd i lety addas.

Er y cawsom ein sicrhau bod gofal diogel yn cael ei ddarparu, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC am y broses o ryddhau cleifion sydd wedi cael eu derbyn am gyfnodau hwy na'r hyn a fwriedir mewn uned asesu a thrin.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

## Lleoliad: Uned Llwyneryr

## Dyddiad y gweithgarwch:19 Mai 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaid i'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC am y broses o ryddhau cleifion sydd wedi cael eu derbyn am gyfnodau hwy na'r hyn a fwriedir mewn uned asesu a thrin. | Safonau Iechyd a Gofal, 5.1 | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw:

Dyddiad: